

TAG UG/SAFON UWCH



TAG UG/SAFON UWCH CBAC CYMRAEG AIL IAITH

CYMERADWYWD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

CANLLAW ADDYSGU

Addysgu o 2016



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

| | |
|--|----|
| Arholiad Llafar - Y Ffilm a Llafaredd | 1 |
| Asesiad Diarholiad | 5 |
| Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth | 6 |
| Y Ddrama a Llafaredd | 12 |
| Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu | 14 |
| Defnyddio Iaith, a'r Stori Fer | 25 |

Arholiad Llafar - Y Ffilm a Llafaredd

Adran A: Trafod ffilm – *Patagonia*

Arholir yr ymgeiswyr mewn grŵp o dri yn yr adran hon.

Dylid defnyddio'r iaith darged ym mhob cyswllt.

Cyn gwyllo'r ffilm dylid cyflwyno hanes yr ymfudo o Gymru i Batagonia yn fanwl gan fanylu pam yr aeth pobl i Batagonia. Mae'r hanes yn ddifyr ac wedi cael cryn sylw, yn enwedig yn ddiweddar.

Awgrymir llunio nodiadau cefndir yn Gymraeg i'r ymgeiswyr. Gellir cael y wybodaeth drwy ymweld â'r gwefannau canlynol:

<http://www.glaniad.com/stories.php?lang=cy&t=2&storyId=34274>

<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/32725675>

<http://www.historic-uk.com/HistoryUK/HistoryofWales/The-History-of-Patagonia/>

<http://www.cymru-ariannin.com/cy/dathliad150.php>

<http://www.menterpatagonia.org/cymraeg/newyddion.php>

Cyn dechrau'r gwyllo'r ffilm dylid:

- manylu ar leoliad y stori
- amlinellu rhediad y stori gan gyfeirio at drefn y digwyddiadau
- cyflwyno'r cymeriadau – enw a rôl pob un, swyddogaeth y gwahanol gymeriadau
- trafod y sain a'r gerddoriaeth gefndir
- ystyried y math o stori yw hi a'r naws a'r awyrgylch sydd ynddi

Gwyllo'r ffilm

Dylid gwyllo'r ffilm sawl gwaith i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn llwyr ddeall y stori.

Dylid oedi'n gyson i drafod neu wneud sylwadau penodol.

Wrth wyllo'r ffilm dylid tynnu sylw'r ymgeiswyr at y canlynol:

- rhediad y stori – mae hyn yn hollbwysig i ddeall y ffilm
- trefn y digwyddiadau
- y gwahanol gymeriadau – hoff gymeriad; ymateb gwahanol gymeriadau i'w gilydd
- y golygfeydd amrywiol yng Nghymru a Phatagonia
- y themâu penodol
- awyrgylch y ffilm – golygfeydd gwahanol yn ne Cymru / gogledd Cymru / Patagonia

Cymeriadau

Sylw i'r canlynol:

- disgrifiadau
- nodweddion
- personoliaeth
- edrychiad
- cefndir

Mae annog yr ymgeiswyr i fynegi barn ar y gwahanol agweddau yn hollbwysig yn yr addysgu.

Wrth adolygu'r ffilm gellid llunio grid tebyg i'r canlynol:

| | |
|-------------------------|--|
| TEITL Y FFILM | |
| ENWAU'R PRIF GYMERIADAU | |
| CRYNODEB O'R STORI | |
| IAITH | |
| Y THEMÂU | |
| Y GERDDORIAETH | |
| Y GWISGOEDD | |

Paratoi ar gyfer yr arholiad llafar

Dyma enghreifftiau o'r patrymau iaith y gellid eu cyflwyno i fynegi barn wrth drafod y ffilm (man cychwyn yn unig ydynt):

Disgwylir i ymgeiswyr ddefnyddio ystod o **batrymau estynedig ynghyd â geirfa eang**.

Ar lefel sylfaenol gellid defnyddio patrymau cychwynnol megis:

- Yn fy marn i mae
- Dw i'n meddwl bod ...
- Fy hoff olygfa/gymeriad/thema ydy ...
- Wyt ti'n cytuno ...?
- Dw i'n cytuno/anghytuno ...
- Dw i'n teimlo
- Beth ydy dy farn di am ...?
- Beth wyt ti'n ei feddwl am ...?
- Mae ... yn dweud
- Rheswm arall ydy ...

I ennill graddau uwch disgwylir i ymgeiswyr amrywio amserau'r ferf a defnyddio'n gyson **is-gymalau enwol, is-gymalau ansoddeiriol ac is-gymalau adferfol**.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain:

- Dw i'n meddwl fy mod i wedi dysgu hanes stori'r ymfudo o Gymru i Batagonia ar ôl gweld y ffilm ...
- Cyn i fi weld y ffilm doeddwn i ddim yn gwybod hanes yr ymfudo o Gymru i Batagonia ...
- Dw i'n meddwl bod yr actores sy'n chwarae rhan Gwen yn y ffilm yn arbennig. Mae Gwen yn berson cymhleth achos ...
- Cryfder y ffilm yn fy marn i ydy'r technegau ffilmio achos ...
- Roeddwn i'n mwynhau'r golygfeydd pan oedd Cerys ac Alejandro yn ymweld â Chymru ...
- Roeddwn i'n hoff iawn o dechneg defnyddio dwy stori, un yng Nghymru a'r llall ym Mhatagonia achos ...
- Pan welais i'r ffilm am y tro cyntaf roedd yn anodd deall y cysylltiad rhwng y ddwy stori, sef y stori yng Nghymru a'r stori ym Mhatagonia ...
- Dysgais i lawer iawn am fywyd pobl ym Mhatagonia wrth astudio'r ffilm ...
- Yn fy marn i mae'r golygfeydd yn y ddwy wlad yn syfrdanol yn enwedig ...
- Fy hoff gymeriad yn y ffilm ydy Mateo achos ...
- Dw i'n meddwl bod perthynas arbennig rhwng y gwahanol gymeriadau ...
- Dw i'n meddwl bod y croeso gafodd Cerys ac Alejandro yng Nghymru yn drawiadol iawn achos ...
- Yr hyn dw i wedi'i fwynhau orau yn y ffilm ydy ...
- Dysgais i lawer am hanes boddi Tryweryn a Chapel Celyn a hanes brwydr y Falkland ...
- Yn fy marn i dw i'n meddwl y byddai'r ffilm yn dal sylw pobl o bob oed achos ...
- Dw i'n meddwl ei bod yn ddiddorol ceisio deall y gwrthdaro rhwng y gwahanol gymeriadau ...

Pwysig

- Wrth drafod y ffilm mae trafodaethau grŵp yn hollbwysig
- Dylid annog yr ymgeiswyr i gydweithio'n gyson
- Ni ddylid dysgu sgriptiau ar y cof
- Y nod yw cynnal sgysiau naturiol

Adran B: Trafod cynnwys yr asesiad diarholiad

Arholir yr ymgeiswyr yn unigol yn yr adran hon.

Rhaid wrth wybodaeth fanwl o'r pecyn a luniwyd gan yr ymgeiswyr yn Uned 2.

Dylid hyfforddi'r ymgeiswyr i fynegi barn.

Dylid ystyried a thrafod y canlynol:

- cynnwys y pecyn
- pam dewis y testun
- y gwahanol symbyliadau
- gwaith ymchwil
- barn

Ceir enghreifftiau o gwestiynau posibl yn yr Uned hon yn y ddogfen *Deunyddiau Asesu Enghreifftiol*.

Asesiad Diarholiad

Ysgrifennu ar gyd-destun o'r rhestr isod sy'n apelio at y disgyblion:

- ardal benodol yng Nghymru
- elfen gymdeithasol, e.e. chwaraeon
- elfen ddiwylliannol, e.e. y theatr yng Nghymru
- elfen alwedigaethol, e.e. gweithfeydd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd
- elfen hanesyddol, e.e. cestyll Cymru, Y Mabinogi
- elfen wleidyddol, e.e. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Disgwylir i'r athrawon drafod gyda'r ymgeiswyr thema sy'n apelio atyn nhw.

Nid oes angen i bob ymgeisydd mewn canolfan ddewis yr un testun.

Unwaith y penderfynir ar y testun dylid dethol 3 tasg ar gyfer y pecyn. Rhaid dewis 3 o'r ffurfiau canlynol:

- adroddiad/erthygl
- portread
- stori
- sgwrs/cyfweliad
- llythyr
- blog
- dyddiadur

Dylid hyfforddi'r ymgeiswyr i drafod nodweddion ieithyddol y ffurfiau gwahanol. Awgrymir gwneud defnydd o'r gyfrol *Ffuglen a Ffaith* (CAA).

Ysgrifennu'n glir mewn Cymraeg syml yw'r nod.

Disgwylir i'r ymgeiswyr drafod cynnwys eu pecyn gyda'r arholwr llafar.

Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth

Adran A: Defnyddio iaith

Gosodir y cwestiynau canlynol:

- (a) Cywiro gwallau mewn testun / cyfieithu testun i'r Gymraeg
- (b) Newid berfau
- (c) Ysgrifennu'n bersonol

Wrth addysgu ar gyfer y cwestiwn hwn dylid sicrhau:

- defnydd cyson o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng yn y gwersi
- ffocws ieithyddol ym mhob gwers (gan gynnwys adnabod elfennau ieithyddol sy'n deillio o'r agweddau barddoniaeth)
- dulliau hwyliog a diddorol o gyflwyno iaith (gemau, gweithgareddau* a gwefannau**) sy'n cynnwys drilio, ymarferion, llenwi bylchau
- cyflwyno'r iaith mewn cyd-destunau dilys
- cefnogaeth staff sy'n siaradwyr Cymraeg
- cywiro sensitif gan osgoi gorgywiro; amlygu elfennau ieithyddol fel rhan o'r meini prawf llwyddiant
- cyfleoedd sy'n galluogi'r dysgwyr i'w trwytho eu hunain mewn agwedd ieithyddol cyn mynd ati i gyflwyno'r hyn a ddysgwyd i bartner neu grŵp

*Awgrymir gwneud defnydd o gyhoeddiadau megis:

Seren Iaith (Nona Breese a Bethan Clement)
Seren Iaith 2 (Nona Breese a Bethan Clement)
Cymraeg Clir (Cen Williams)
Golwg ar Iaith (Non ap Emllyn)
Canllawiau Ysgrifennu Cymraeg (J. Elwyn Hughes)
Cymraeg Da (Heini Gruffudd)
Cymraeg Graenus (Phyl Brake)

**Gwefannau megis:

Canolfan Peniarth (<http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/2012-13/22032013/sglein-ar-lein/index.html>)
<http://hwb.wales.gov.uk/>

<http://hwb.wales.gov.uk/>

Canllawiau cyffredinol ar gyfer Cwestiwn 1 a) Cywiro gwallau ac 1 b) Newid berfau

Gall Cwestiwn 1 a) ofyn i ymgeiswyr gywiro gwallau iaith mewn darn.

Gall Cwestiwn 1 b) ofyn i ymgeiswyr addasu a newid darn yn ôl y gofynion a nodir isod:

- newid amser y ferf
- newid person y ferf
- newid o'r person cyntaf i'r trydydd person
- newid o'r trydydd person i'r person cyntaf
- newid o'r unigol i'r lluosog
- newid o'r lluosog i'r unigol

Rhagbaratoi

- Dysgu ffurfiau berfau rheolaidd ac afreolaidd, amser a pherson
- Gwybodaeth sicr o ramadeg sylfaenol y Gymraeg (e.e. treiglo ar ôl arddodiaid megis 'i', 'o') gan wybod y rhesymau am y rheolau
- Canolbwyntio ar ddysgu un rheol ar y tro ac yna adolygu'r gwaith yn gyson gan ddefnyddio amrywiaeth o ymarferion
- Edrych ar ddarnau o ryddiaith, erthyglau cyfoes ac ati a chwilio am enghreifftiau penodol o ramadeg yn y darnau, e.e. chwilio am enghreifftiau o'r treigladd meddal

Enghreifftiau

Cwestiwn 1 a) Cywiro gwallau

Dyma enghraifft o'r math o ddarn y gellid ei ddisgwyl mewn arholiad:

1. Darllenwch yr erthygl papur newydd isod. Mae sawl camgymeriad yn yr erthygl. Cywirwch y camgymeriadau. Mae 10 gwall yn yr erthygl.
 - gwallau teipio / gwallau sillafu
 - gwallau iaith / gwallau treiglo
 - gwallau atalnodi
 - geiriau anghywir

Cyfrifiadur o Gymru'n helpu plant ysgol yn Zambia

Cafodd y cyfrifiadur Raspberry Pi ei ddatblygu yn 2013 gan cwmni o Gymru.

Ond beth yw Raspberry Pi?

Cyfrifiadur maint cerdyn credyd ydy Raspberry Pi. Bydd e wedi cael ei greu i annog pobl ifanc i ysgrifenu rhaglenni cyfrifiadurol.

Yr wythnos nesaf aeth cwmni cyfrifiadurol, GiaKonda, sy'n gwerthu Raspberry Pi, i Zambia. Mae disgyblion ysgol yn Zambia eisiau defnyddio cyfrifiaduron Raspberry Pi yn y gwersi technoleg gwybodaeth mewn yr ysgol.

Yn 2013 cost y cyfrifiadur oedd £25 ac roedd pob cyfrifiadur wedi'i gwerthu yn gyflym iawn ar ôl lansiad y cyfrifiadur. Nawr mae'r Raspberry Pi yn gwerthu am £4 yn unig. Bwriad y Raspberry Pi yw helpu pobl dlawd i ddefnyddio cyfrifiaduron.

Dywedodd Gary Richards, rheolwr ffatri Raspberry Pi yn Pen-y-bont, 'Mae hwn yn gynllun cyffrous, ac yn bwysig iawn i pobl Zambia. Mae nhw'n cael cyfle i ddysgu defnyddio cyfrifiaduron yn yr ystafell ddosbarth. Dyn ni'n gwybod bod mae llawer o bobl ifanc yn dysgu defnyddio cyfrifiaduron yn Zambia, felly mae hyn yn newyddion da iawn.'

(<http://golwg360.cymru/newyddion/arian-a-busnes/103713-raspberry-pi-am-gael-ei-gynhyrchu-yng-nghymru>
<http://golwg360.cymru/newyddion/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/207314-cyfrifiadur-o-gymrun-helpu-plant-ysgol-yn-zambia>)

- | | |
|----|-----|
| 1. | 6. |
| 2. | 7. |
| 3. | 8. |
| 4. | 9. |
| 5. | 10. |

Cwestiwn 1 b) Newid berfau

Mae'r erthygl yn sôn am arferion ymolchi'r Cymry yn 2015.

Darllenwch y darn isod a newidiwch amser y ferf o'r presennol i'r gorffennol. Mae angen newid 10 berf yn y darn.

Mae ymchwil yn 2015 yn dweud mai'r Cymry yw'r bobl lanaf ym Mhrydain. **Rydyn ni** yn yr ystafell ymolchi bob dydd am fwy o amser nag unrhyw un arall. Yn 2015 **mae'r** Cymry yn treulio 31 munud y dydd yn yr ystafell ymolchi, y Saeson 30 munud a'r Albanwyr 29 munud.

Ond **dydy** pob rhan o Gymry ddim mor lan â'i gilydd. **Mae** pobl yn Aberystwyth wedi gwario 56% yn llai ar sebon a siampw yn 2015 nag unrhyw ran arall o Brydain. A **dydyn ni** ddim mor lân yn y gaeaf chwaith. '**Dydw i** ddim yn cael cawod bob dydd yn y gaeaf, mae hi'n rhy oer,' meddai Geraint, '**Does** dim rhaid siafio bob dydd chwaith.' **Dydy e** ddim yn meddwl bod hyn yn broblem.

Rhaid i ni wisgo mwy o ddillad yn y gaeaf yn 2015 achos **mae hi'n** oer iawn.

(<http://golwg360.cymru/newyddion/rhyfeddodau/202968-y-cymry-ywr-glanaf-ym-mhrydain>)

Canllawiau cyffredinol ar gyfer Cwestiwn 1 c) Ysgrifennu'n bersonol

Gall Cwestiwn 1 c) ofyn i ymgeiswyr ysgrifennu ymateb yn dilyn sbardun gan gynnwys llythyr cais, e-bost yn gofyn am wybodaeth, gwahoddiad, ceisio dwyn perswâd a mynegi barn ar bwnc cyfoes.

Rhagbaratoi

- Adeiladu ar y gwaith gramadeg a nodwyd yng nghwestiwn 1 a) a b) uchod
- Dysgu confensiynau ysgrifennu ffurfiau arbennig
- Cyflwyno patrymau iaith i gynorthwyo disgyblion, e.e. sut i ddechrau a chloi llythyr ffurfiol, yr iaith sydd ei hangen i ddwyn perswâd ac i fynegi barn
- Edrych a dadansoddi enghreifftiau er mwyn gweld arfer da

Canllawiau Ysgrifennu Cymraeg (J. Elwyn Hughes)

Adran B: Barddoniaeth

Mae'r cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr ymateb yn bersonol i un o bum cerdd osod. Disgwylir i ymgeiswyr drin y materion canlynol yn eu hymateb: cynnwys y cerddi, themâu, arddull ac agwedd y bardd at fywyd. Yn ogystal, disgwylir i'r ymgeiswyr ystyried dehongliadau eraill (disgyblion eraill, athrawon a beirniaid llenyddol). Dylent ddyfynnu'n briodol o'r gerdd a defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn briodol. Rhaid iddynt hefyd ddefnyddio iaith yn y cywair priodol gan roi ystyriaeth i'r pwrpas a'r gynulleidfa.

Rhagbaratoi

- Yr athro/athrawes i ddarllen y gerdd
- Uwchleuo'r geiriau sy'n gyfarwydd i'r disgyblion (gwaith pâr/grŵp) a'u trafod
- Edrych ar unrhyw eiriau anghyfarwydd
- Darllen y gerdd eto
- Llenwi taflen nodiadau yn nodi prif nodweddion y gerdd, er enghraifft:

| | |
|--------------------------------------|--|
| Enw'r gerdd | |
| Enw'r bardd | |
| Sawl pennill | |
| Beth mae'r bardd yn ei ddweud | |
| Neges y gerdd | |
| Prif thema'r gerdd | |
| Prif nodweddion arddull y gerdd | |
| Pwyntiau trafod yn deillio o'r gerdd | |

Rhaid sicrhau bod disgyblion yn deall ac yn medru adnabod nodweddion arddull cerdd, e.e. odli, personoli, cymhariaeth, trosiad, delwedd, defnydd o'r synhwyrau, pwysleisio.

Enghraifft

4. Darllenwch yn ofalus y pennill canlynol o'r gerdd *Caerdydd* gan Iwan Rhys ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Ar hewlydd Caerdydd mae dôt
i'r Gymraeg yma ar agor,
ac nid dôt gilagored:
yn Nhrelái mae'r ddôt ar led;
ydy wir, mae iaith y dydd
yn Nhreganna ar gynnydd.

(a) Beth ydy prif neges y pennill hwn a sut mae'n berthnasol i weddill y gerdd?

Gall ymgeiswyr gynnwys y canlynol yn eu hymatebion:

- bod plant prifddinas Cymru yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg
- bod nifer y plant sy'n mynd i ysgolion Cymraeg yn sylweddol, ac ar draws pob ardal o'r brifddinas (Trelái, Treganna, Sblot a'r Eglwys Newydd)
- yr iaith fel petai'n agor drws i bobl fynd drwyddo a dechrau siarad
- bod y bardd yn mynd ymlaen i sôn am ardaloedd eraill o Gaerdydd lle mae plant yn dysgu'r Gymraeg ac am ddiwylliant Cymru
- bod pob math o acenion Cymraeg i'w clywed yn y brifddinas
- bod y gerdd yn un bositif sy'n dweud bod gobaiith newydd i'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd
- bod yr ystadegyn ar ddechrau'r gerdd yn arwyddocaol – mae'n rhoi syniad i ni o'r niferoedd sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

(b) Yn y gerdd mae'r bardd yn defnyddio'r technegau canlynol:

- odli
- goferu
- trosiad

Trafodwch pa mor effeithiol ydy'r technegau uchod yn y gerdd hon.

Gellid nodi'r pwyntiau canlynol mewn ymateb i'r cwestiwn gan roi enghreifftiau o'r gerdd i gefnogi:

- odli ar ddiwedd pob llinell (aa/bb/cc ac yn y blaen)
- y technegau'n helpu i greu strwythur i'r gerdd – yr odli a'r goferu
- y goferu'n helpu'r gerdd i redeg yn llyfn ac o ganlyniad yn fwy naturiol a rhythmig (wrth i un llinell redeg i mewn i'r llall)
- y technegau'n ychwanegu at rythm a llif y gerdd
- y trosiad yn cyfeirio at y cynnydd yn nefnydd yr iaith fel 'dôt' gan gyfleu'r syniad bod y brifddinas yn agor ei drws i groesawu'r iaith yn ôl

(c) Beth ydy'ch barn chi am y Gymraeg yn eich cymdeithas chi?

Gallwch sôn am y canlynol:

- pwy sy'n siarad Cymraeg yn eich ardal chi
- ble gallwch chi fynd i siarad Cymraeg
- beth hoffech chi ei weld yn yr ardal i'ch helpu chi i ymarfer eich Cymraeg
- y cyfleoedd sydd ar gael i wneud pethau yn y Gymraeg – cymdeithasau, hobiau, chwaraeon

| | |
|-------------------|---|
| A 16-20 | <ul style="list-style-type: none"> • Mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir. • Saernio'u gwaith yn fanwl a gofalus. • Rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn sensitif. • Arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen. |
| B 13-15 | <ul style="list-style-type: none"> • Mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir. • Cynllunio'u gwaith yn fanwl. • Rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio'r arddull yn briodol. • Arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen. |
| C 10-12 | <ul style="list-style-type: none"> • Mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan. • Cynllunio'u gwaith yn ofalus. • Rhoi sylw i gywair drwy amrywio'r arddull. • Arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen. |
| D 7-9 | <ul style="list-style-type: none"> • Mynegi eu hunain yn eithaf clir a chywir. • Cynllunio gwaith yn eithaf gofalus. • Arddangos ymwybyddiaeth o gywair. • Arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen. |
| E 4-6 | <ul style="list-style-type: none"> • Mynegi eu hunain yn glir chywir ar y cyfan. • Arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith. • Defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen. |
| U 0-3 | <ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig. |

Y Ddrama a Llafaredd

Adran A: Byw yn Gymraeg

Dylid defnyddio'r iaith darged ym mhob cyswllt.

Disgwylir i'r myfyrwyr drafod meysydd penodol ar ôl ymwneud â nhw'n rheolaidd yn ystod y cwrs.

Rhaid **rhagbaratoi'r** pynciau canlynol:

- y Gymraeg yn y gymdeithas (hynny yw, ardal y myfyrwyr)
- ymweliadau gan siaradwyr gwadd â'r ysgol/coleg
- tripiâu/cyrsiau Cymraeg, er enghraifft, Glan-llyn, Llangrannog, gweithgareddau'r Urdd
- digwyddiadau diwylliannol, gan gynnwys, er enghraifft, yr Eisteddfod, ymweliadau â stiwdio deledu
- darlledu Cymraeg ar y We Fyd-eang (rhaglenni radio, teledu)
- y Gymraeg yn y cyfryngau cymdeithasol (trydar, gweplyfr)
- cynyrchiadau Cymraeg yn y theatr (y cynnwys, y cymeriadau, yr ymateb)
- ffilmiau Cymraeg (y cynnwys, y cymeriadau, yr ymateb)
- newyddiaduraeth Gymraeg gan gynnwys cylchgronau, *Y Cymro*, *Golwg*, *Lingo*,
- papurau bro

Adran B: Trafod drama – *Crash*

Wrth ddarllen sgript y ddrama dylid trafod y wybodaeth ganlynol:

TEITL Y DDRAWA – arwyddocâd y teitl, barn a dehongliad y myfyrwyr

Y CYMERIADAU – rôl a phwysigrwydd Els, Wes a Rhys. Â pha gymeriad mae'r myfyrwyr yn uniaethu? A ellir cydymdeimlo â'r cymeriadau?

CRYNODEB Y STORI – gwybod a gallu manylu ar union drefn y digwyddiadau. **Rhaid gwybod y cynnwys yn fanwl i allu ymateb i'r gwahanol agweddau**

IAITH – trafod y math o iaith sy'n cael ei siarad gan y cymeriadau. Beth sy'n arbennig am yr iaith?

Y THEMÂU – rhaid trafod y canlynol: gwreiddiau, cyfrifoldeb, gofidiau pobl ifanc yn eu harddegau, dylanwad cyfoedion, gwrthryfela ieuencid, effeithiau alcohol a chyffuriau, tyndra rhwng cymeriadau, cariad a rhamant

Y GOLYGFYDD – cyfeirio at y golygfeydd allweddol. Hoff olygfa'r myfyrwyr? Ydy'r olygfa ar ddiwedd y ddrama yn effeithiol?

NEGES – Beth ydy ymateb y myfyrwyr i'r cynnwys? Ydy'r ddrama yn addas i bobl ifanc heddiw? Ai drama i bobl ifanc yw hi? Ydy hi'n bortread realistig o gymdeithas heddiw neu yn llun eithafol?

YM MHOB ACHOS DISGWYLIR CLYWED BARN BERSONOL Y MYFYRWYR UNIGOL

Awgrymir darllen adolygiad Catrin Beard o gynhyrchiad Cwmni Arad Goch o'r ddrama *Crash* yn Hydref 2011

http://www.aradgoch.org/documents/CRASH - Adolygiad_Catrin_Beard_Hydref_2011.pdf

Adran C: Ymateb i gwestiynau ar themâu penodol fydd yn amlwg yn y gwahanol destunau a astudiwyd yn ystod y cwrs cyfan (Asesiad Synoptig)

Gofynnir cwestiynau i'r myfyrwyr a fydd yn mynnu eu bod yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y gwahanol destunau ar draws y fanyleb.

Gellir trafod y themâu canlynol:

- Teulu
- Perthynas
- Cyfrifoldeb
- Cariad
- Cyfathrebu

Awgrymiadau ar ba destunau y gellid eu trafod ym mhob thema

TEULU *Crash, Patagonia*, 'Angladd yn y Wlad'

PERTHYNAS *Crash, Patagonia*, 'Trŵ lyf', 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel', 'Angladd yn y Wlad', 'Dim ond serch'

CYFRIFOLDEB *Crash, Patagonia*, 'Trŵ lyf', 'Angladd yn y Wlad'

CARIAD *Crash, Patagonia*, 'Angladd yn y Wlad', 'Trŵ lyf', 'Dim ond serch'

CYFATHREBU *Crash, Patagonia*, 'Angladd yn y Wlad', 'Pwy Fyth a Fyddai'n Fetel'

Pwysleisir y gellir ychwanegu at y testunau uchod gan gynnwys rhaglenni teledu, ffilmiau, perfformiadau mewn theatr, cerddi a straeon byrion eraill.

Ceir enghreifftiau o gwestiynau posibl yn yr Uned hon yn y ddogfen *Deunyddiau Asesu Enghreifftiol*

Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu

Adran A: Y Gymraeg yn y gymdeithas

Er mwyn gallu ateb cwestiwn am y Gymraeg yn y gymdeithas, bydd disgwyl i ymgeiswyr fod yn:

- ymwybodol o brif gyfrifoldebau Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a rhai o bolisiau Llywodraeth Cymru, e.e. *laith fyw: iaith byw*
- ymwybodol o'r ystod eang o swyddi lle mae galw am siaradwyr Cymraeg
- gwybod manylion pellach am rai sefydliadau cyhoeddus a phreifat, yn genedlaethol ac yn lleol, sy'n ystyried y Gymraeg yn rhan allweddol o'u gwaith ac sy'n gweithredu polisi dwyieithrwydd
- gwybod am eu cyd-destun lleol, e.e. gweithleoedd sy'n gweithredu polisi dwyieithrwydd a gwaith y fenter iaith / y ganolfan iaith leol.

Isod, ceir enghreifftiau o adnoddau defnyddiol ynghyd â rhai syniadau enghreifftiol o sut i gyflwyno rhai agweddau ar y wybodaeth uchod.

- **Dylai ymgeiswyr ddeall prif gyfrifoldebau Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a bod yn ymwybodol o rai o bolisiau Llywodraeth Cymru (e.e. *laith fyw: iaith byw*). Am wybodaeth, gweler y canlynol, er enghraifft:**

Cyflwyniad i waith Comisiynydd y Gymraeg

<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/English/Publications%20List/20120319%20GC%20Cyflwyniad%20i%20waith%20Comisiynydd%20y%20Gymraeg%20-%20fersiwn%20terfynol.pdf>

Gwefan Comisiynydd y Gymraeg

<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

Gwefan Llywodraeth Cymru (strategaeth *laith fyw: iaith byw*)

<http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/wlstrategy2012/?lang=cy>

Fideos *You Tube* am strategaeth Llywodraeth Cymru, *laith fyw: iaith byw*.

<http://goo.gl/OF26xt>

<http://www.bing.com/videos/search?q=laith%20fyw%20iaith%20byw%20workplace&qsn&form=QBVR&pq=iaith%20fyw%20iaith%20byw%20workplace&sc=0-20&s>

<https://www.youtube.com/watch?v=rUcw7pTRLpE>

- **Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r ystod eang o swyddi lle mae galw am siaradwyr Cymraeg. Dyma enghraifft o weithgaredd posibl.**
 - i. Driliwch eirfa sy'n ymwneud ag amrywiol feysydd byd gwaith, geirfa megis y cyfryngau, addysg, chwaraeon, busnes, iechyd a gofal, marchnata, cyllid, cyfieithu, y llywodraeth, cynghorau sir, gweisg cyhoeddi, hamdden a thwristiaeth, y gyfraith, yr amgylchedd.
 - ii. Rhowch gopiâu o wahanol hysbysebion swyddi o gylchgronau a phapurau newydd fel Golwg a'r Cymro i rai dysgwyr a gofynnwch i ddysgwyr eraill edrych ar wefannau swyddi fel:

<http://www.lleol.cymru/classified/>

<http://www.safleswyddi.com/>

- iii. Rhowch daflen waith i'r dysgwyr er mwyn iddynt gofnodi gwybodaeth am natur y swyddi a welant, er enghraifft:

| Swydd | Enw'r cwmni neu'r sefydliad | Lleoliad | Maes, e.e. y cyfryngau, addysg, chwaraeon ... |
|-------|-----------------------------|----------|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

- iv. Gofynnwch i bawb adrodd yn ôl wrth weddill y dosbarth a thrafodwch y canfyddiadau – dylent ddangos bod ystod eang o swyddi lle mae galw am siaradwyr Cymraeg. Gellid hefyd drafod lleoliadau'r swyddi hyn. A oes enghreifftiau o hysbysebion swyddi ar gyfer gwahanol rannau o Gymru? Pam? A yw llawer ohonynt yn yr un ardaloedd? Pam?
- v. Rhowch dasg ysgrifennu i'r dysgwyr, e.e. tua 150 o eiriau'n nodi'r ystod o feysydd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg neu ddwyieithog, gan roi enghreifftiau penodol o swyddi.
- **Dylai ymgeiswyr wybod manylion pellach am rai sefydliadau cyhoeddus a phreifat, yn genedlaethol ac yn lleol, sy'n ystyried y Gymraeg yn rhan allweddol o'u gwaith ac sy'n gweithredu polisi dwyieithrwydd. Dyma enghreifftiau o weithgareddau posibl.**

Enghraifft 1

- i. Rhannwch y dysgwyr yn barau a rhowch faes byd gwaith yr un iddynt, e.e. iechyd, marchnata, yr heddlu. Gofynnwch iddynt feddwl am resymau pam y byddai'r Gymraeg yn fanteisiol yn y maes a roddwyd iddynt. Gellid rhoi gwybodaeth yn Saesneg i'r dysgwyr er mwyn eu cynorthwyo i feddwl am syniadau, gan roi cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau trawsieithu ar yr un pryd, er enghraifft:
 - Maes iechyd: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-20415012>;
 - Yr heddlu: <http://www.north-wales.police.uk/about-us/welsh-language/welsh-language-department.aspx>;
 - Maes arlwyo/marchnata: <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/english/news/Pages/Research-into-the-use-of-Welsh-in-the-food-and-drink-sector.aspx> a <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/royal-welsh-labelling-your-food-7475622>;
- ii. Gofynnwch am adborth gan y dysgwyr a thrafodwch y canfyddiadau.
- iii. Rhowch dasg ysgrifennu i'r dysgwyr, e.e. ysgrifennu 150 o eiriau am y rhesymau pam y mae'r iaith Gymraeg o fudd yn y gweithle ac o fantais i fusnesau, gan nodi enghreifftiau penodol.

Enghraifft 2

Defnyddiwch rai o'r podlediadau ar wefan Gyrfa Cymru i ddysgu am enghreifftiau pellach o sefydliadau a chwmnïau sy'n ystyried y Gymraeg yn rhan allweddol o'u gwaith. (<http://www.careerswales.com/cy/offer-ac-adnoddau/dewis-da-y-gymraeg-yn-y-gweithle/>).

Dyma syniadau ar gyfer defnyddio dau o'r podlediadau hynny.

a. Podlediad am Ysgol Gymraeg y Ffin, Cil-y-Coed

<http://www.careerswales.com/cy/offer-ac-adnoddau/dewis-da-y-gymraeg-yn-y-gweithle/astudiaethau-achos/ysgol-gymraeg-y-ffin/>

Yn y podlediad hwn, mae un o'r athrawesau, Hayley Evans, yn siarad am bwysigrwydd y Gymraeg ym maes addysg. Isod, ceir trawsgrifiad o'r podlediad.

YSGOL GYMRAEG Y FFIN, CIL-Y-COED

"Fy enw i yw Hayley Evans a dw i'n athrawes Blynyddoedd Cynnar yn Ysgol Gymraeg y Ffin yng Nghil-y-Coed.

Mae gweithio gyda phlant bach yn rhoi cymaint o fwynhad. Mae gweld y ffordd maen nhw'n datblygu sgiliau yn wych, yn enwedig y sgiliau hynny sy'n mynd i fod yn bwysig iddyn nhw yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae'n amlwg na allwn i wneud fy ngwaith fan hyn yn y Blynyddoedd Cynnar os nad o'n i'n siarad Cymraeg.

Mae pwysigrwydd cyflwyno'r iaith Gymraeg yn gynnar iawn i blant yn cael cymaint o sylw a chefnogaeth gan brojectau fel Twf a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'n ffantastig achos mae'r plant yn dysgu sgiliau newydd yn y Cyfnod Sylfaen gyda'r holl ffocws ar chwarae. Maen nhw'n gallu dod o deuluoedd lle dydyn nhw ddim wedi clywed gair o Gymraeg a dysgu geirfa newydd a dod i siarad Cymraeg yn naturiol iawn. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod plant dwyieithog yn gallu meddwl yn fwy creadigol a gwneud yn well mewn pynciau fel Gwyddoniaeth lle mae angen datrys problemau.

"Os y'ch chi eisiau gweithio gyda phlant bach mewn unrhyw faes yng Nghymru heddiw, o'm profiad i mae'r gallu i siarad Cymraeg yn holl hollbwysig. Edrychwch arna i, rwy'n gweithio mewn ysgol gynradd sy wedi'i lleoli yn Lloegr bron ond fyddwn i ddim yma o gwbl oni bai fy mod i'n gallu siarad a gweithio trwy'r iaith Gymraeg!"

- i. Cyn edrych ar y paragraff / gwrando ar y podlediad, driliwch unrhyw eirfa allweddol, e.e. gellid rhoi cardiau i'r dysgwyr i'w defnyddio mewn parau, gyda'r geiriau Cymraeg ar un ochr a'r geiriau Saesneg ar yr ochr arall (gweler y cardiau enghreifftiol isod).

Rhowch drawsgrifiad o'r podlediad i'r dysgwyr. Gwnewch weithgareddau er mwyn i'r dysgwyr ymgysgu â'r darn, er enghraifft:

- Rhowch nifer o osodiadau i'r dysgwyr a gofyn iddynt benderfynu a yw'r rhain yn gywir neu'n anghywir (gweler y gweithgaredd enghreifftiol isod)
- Rhowch gopi o'r paragraff â rhai o'r geiriau wedi eu gadael allan er mwyn i'r dysgwyr lenwi'r bylchau
- Chwaraewch y podlediad o Hayley Evans yn siarad. Unwaith eto, gellid rhoi copi o'r paragraff â bylchau ynddo er mwyn i'r dysgwyr, y tro hwn, lenwi'r bylchau wrth wrando.

GEIRFA

| Cymraeg | Saesneg |
|---------------------------------|---------------------------------|
| cymaint o fwyndad | so much enjoyment |
| datblygu sgiliau | to develop skills |
| yn enwedig | especially |
| y sgiliau hynny | those skills |
| yn nes ymlaen | later on |
| Blynyddoedd Cynnar | Early Years |
| pwysigrwydd | importance |
| cyflwyno'r iaith Gymraeg | to introduce the Welsh language |
| yn gynnar iawn | very early |
| cymaint o sylw | so much attention |
| cefnogaeth | support |
| Cyfnod Sylfaen | Foundation Phase |
| ffocws | focus |
| ymchwil | research |
| dangos | to show |
| dwyieithog | bilingual |
| meddwl yn fwy creadigol | to think more creatively |
| datrys | to solve |
| maes | area/field |
| o'm profiad i | from my experience |
| hollbwysig | extremely important |
| oni bai | unless |

b. Podlediad am Westy'r Harbwr, Aberaeron, Ceredigion

<http://www.careerswales.com/cy/offer-ac-adnoddau/dewis-da-y-gymraeg-yn-y-gweithle/astudiaethau-achos/gwesty-r-harbwr/>

Yn y podlediad hwn, mae perchennog Gwesty'r Harbwr, Menna Heulyn, yn siarad am bwysigrwydd y Gymraeg yn ei gwesty. Dyma drawsgrifiad o'r podlediad.

GWESTY'R HARBWR

Menna Heulyn, perchennog:

"I ni yng Ngwesty'r Harbwr yma ar lan y môr, mae'r Gymraeg yn rhan bwysig iawn o'r croeso. Os yw pobl yn dod yma i aros am noson, neu'n dod am ddiod fach sydyn neu am baned, mae'n bwysig iawn i ni fod pawb yn gallu siarad Cymraeg â nhw. Mae'n bwysig iddyn nhw hefyd, dw i'n credu, eu bod nhw'n cael y croeso yn Gymraeg. Mae'n grêt achos mae'r sylw positif ry'n ni wedi'i gael yn y papurau newydd yn gweld y Cymreictod hyn yn y gwesty fel rhywbeth sy'n bositif iawn, fel rhywbeth ychwanegol i'r profiad o ddod yma i orllewin Cymru o le bynnag y maen nhw'n dod - o rannau eraill o Gymru neu o Brydain. Mae'r Gymraeg yn gryf yn y rhan yma o Gymru yng Ngheredigion, ac mae hynny i'w deimlo yn y math o awyrgylch sy gyda ni yn y gwesty.

"Ry'n ni'n gwneud ein gorau i wneud yn siŵr bod y cyfan ry'n ni'n neud mor broffesiynol â phosib. Mae'r manylion mor bwysig wrth wneud yn siŵr bod y bobl sy'n aros yma'n gyfforddus ac yn cael amser da. Mae'r gallu i siarad Cymraeg gan ein staff ni yr un mor allweddol i ni, ac ry'n ni'n ei ystyried fel sgîl proffesiynol ynghyd â'r sgîliau eraill ry'n ni'n disgwyl i'n staff ni i fod yn gyfforddus â nhw. Felly, o'r eiliad y mae rhywun yn camu trwy'r drws ry'n ni'n barod iawn i roi croeso cynnes Cymraeg iawn iddyn nhw."

- i. Driliwch unrhyw eirfa allweddol sydd yn y paragraff, e.e. y dysgwyr i gael rhestr o'r eirfa yn y Gymraeg ac yn y Saesneg a rhaid iddynt baru'r cyfieithiadau cywir (gweler y daflen enghreifftiol isod).
- ii. Rhowch drawsgrifiad o'r podlediad i'r dysgwyr a rhowch gwestiynau iddynt eu hateb yn seiliedig ar y darn, er enghraifft:
 - Ble mae Gwesty'r Harbwr?
 - Beth sy'n rhan bwysig iawn o'r croeso yn y gwesty?
 - Sut mae'r papurau newydd yn gweld y Cymreictod yn y gwesty?
 - I Menna Heulyn, pa fath o sgîl yw'r gallu i siarad Cymraeg yn y gweithle?
 - Beth sy'n bwysig pan fydd pobl yn camu drwy'r drws?
- iii. Chwaraewch y podlediad – gellid rhoi copi o'r paragraff â bylchau ynddo er mwyn i'r dysgwyr lenwi'r bylchau gan ymarfer unrhyw eiriau allweddol wrth wrando.
- iv. Rhowch dasg ysgrifennu i'r dysgwyr, e.e. ysgrifennu 100 o eiriau yn crynhoi'r wybodaeth am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn Ysgol y Ffin ac yng Ngwesty'r Harbwr.

Parwch y geiriau/ymadroddion Cymraeg â'r cyfieithiadau Saesneg cywir.

| | Cymraeg | | Saesneg |
|----|----------------------------|---|--------------------------------|
| 1 | ar lan y môr | | evening |
| 2 | rhan bwysig iawn | | West Wales |
| 3 | croeso | 1 | at the seaside |
| 4 | noson | | experience |
| 5 | diod fach sydyn | | to do our best |
| 6 | sylw positif | | a very important part |
| 7 | rhywbeth ychwanegol | | a professional skill |
| 8 | profiad | | parts |
| 9 | Gorllewin Cymru | | welcome |
| 10 | rhannau | | to consider |
| 11 | math o awyrgylch | | a quick little drink |
| 12 | gwneud ein gorau | | someone |
| 13 | manylion | | positive attention |
| 14 | cyfforddus | | something extra |
| 15 | yr un mor allweddol | | type of atmosphere/environment |
| 16 | ystyried | | just as crucial |
| 17 | sgil proffesiynol | | details |
| 18 | disgwyl | | to step |
| 19 | o'r eiliad | | to expect |
| 20 | rhywun | | a very warm Welsh welcome |
| 21 | camu | | comfortable |
| 22 | croeso cynnes Cymraeg iawn | | from the moment |

- **Dylai ymgeiswyr wybod am eu cyd-destun lleol, er enghraifft:**

- dylid ymweld â'r Fenter Iaith / y Ganolfan Gymraeg leol er mwyn dysgu am yr hyn y maent yn ei wneud i gynorthwyo busnesau yn eu hardal;
- dylid ymweld â gweithle lleol / ymchwilio i weithle lleol sy'n defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg.

CYWIR NEU ANGHYWIR?

Darllenwch y paragraff gan Hayley Evans. Ydy'r pwyntiau hyn yn gywir neu'n anghywir?

Os ydyn nhw'n anghywir, cywirwch nhw.

| | ✓ neu ✕ | Unrhyw wybodaeth ychwanegol |
|---|---------|-----------------------------|
| 1. Mae Hayley Evans yn mwynhau gweithio gyda phlant bach. | | |
| 2. Byddai Hayley Evans yn gallu gwneud ei gwaith pe bai hi'n ddi-Gymraeg. | | |
| 3. Mae projectau fel Twf a Mudiad Ysgolion Meithrin yn helpu i gyflwyno'r iaith Gymraeg yn gynnar i blant. | | |
| 4. Os yw plant yn siarad Saesneg yn unig gartref, dydy hi ddim yn bosibl iddyn nhw ddysgu'r Gymraeg yn dda. | | |
| 5. Mae ymchwil yn dangos bod siarad Cymraeg yn gallu helpu plant i feddwl yn fwy creadigol. | | |
| 6. Dydy siarad Cymraeg ddim yn helpu gyda phynciau fel Gwyddoniaeth. | | |
| 7. Os ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, mae'r iaith Gymraeg yn bwysig ym mhob ardal. | | |

Enghreifftiau o adnoddau pellach ar gyfer dysgu am y Gymraeg yn y byd gwaith

- Gellir defnyddio ambell glip ar YouTube i edrych ar y Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer y gweithle, er enghraifft:
 - cyfweiliad â Tracey Williams, Rheolwr Gyfarwyddwr Job Trac Cymru ar <https://www.youtube.com/watch?v=93Qe9F2Alug>
 - 'Using Welsh in the Health Professions' gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fideo yn Saesneg ond ceir isdeitlau Cymraeg) ar <https://www.youtube.com/watch?v=7ap0g7fWjC4>
 - fideo yn Saesneg (ceir isdeitlau Cymraeg) yn nodi pam mae'r Gymraeg yn werthfawr wrth ddelio â chwsmeriaid mewn salon trin gwallt: <https://www.youtube.com/watch?v=CKC0XvniKlI>
- Gweler hefyd wefannau fel
 - <http://cymraeg.llyw.cymru/business/workplace/manteision/?lang=cy>
 - <http://business.wales.gov.uk/skillsgateway/cy/cymraeg-y-gweithle>

Adran B: Trawsieithu

- Cyn dechrau ymarfer cwestiynau Trawsieithu, dylid bod wedi cyflwyno, drilio ac ymarfer agweddau ar ramadeg (e.e. y ffurfiau berfol, yr arddodiaid, yr is-gymalau). Mae'n hanfodol, er enghraifft, fod y dysgwyr yn deall sut i ddefnyddio'r is-gymalau enwol yn gywir ar gyfer y dasg hon.

e.e.

*Dw i'n credu **bod** ...*

*Creda i **ei fod e'n** ...*

*Teimla i **y** dylen ni ...*

*Dw i'n credu **y** bydd ...*

*Meddyliaf **mai** ...*

*Rwy'n siŵr **nad yw'n** ...*

Dylid hefyd sicrhau bod dysgwyr yn deall sut i osod llythyr ffurfiol, er enghraifft:

| | |
|---|--|
| <p>Y Golygydd 'Golwg' Llanbedr Pont Steffan SA48 7JA</p> | <p>Ysgol Llanllawen 24, Heol Newydd Abertawe SA1 8PP</p> |
| <p>Annwyl Olygydd,</p> | <p>29 Mehefin 2016</p> |
| <p>Paragraff agoriadol byr.</p> | |
| <p>Paragraff yn crynhoi'r prif bwyntiau ac yn rhoi ymateb personol.</p> | |
| <p>Paragraff clo byr i grynhoi.</p> | |
| <p>Yr eiddoch yn gywir,</p> | |

- Dylid rhoi digon o gyfle i'r dysgwyr ymarfer ateb cwestiynau Trawsieithu. Dylid hefyd ddarparu atebion enghreifftiol wedi eu hysgrifennu mewn iaith glir a syml i'w dadansoddi yn y dosbarth a/neu roi cyfleoedd i'r dysgwyr ddadansoddi gwaith ei gilydd.
- Anogwch y dysgwyr i amrywio'r mynegiant, e.e. drwy ofyn iddynt ddechrau pob brawddeg mewn ffordd wahanol pan fônt yn crynhoi prif bwyntiau'r erthygl. Y troeon cyntaf, gellid hyd yn oed nodi'r union frawddegau y dymunwch iddynt eu gorffen (gan gofio y dylid cadw at iaith glir a syml), er enghraifft:
 1. Yn ôl yr erthygl ...
 2. Roeddwn i'n synnu darllen ...
 3. Mae'r erthygl yn cyfeirio at ... / Cyfeiria'r erthygl at ...
 4. Mae'r erthygl yn dyfynnu ... / Dyfynna'r erthygl ...

5. Mae'r erthygl yn esbonio bod ... / Esbonia'r erthygl fod ...
6. Rydyn ni'n darllen bod ... / Darllenwn fod ...
7. Mae'r erthygl yn ychwanegu ... / Ychwanega'r erthygl ...

Dylid tynnu sylw'r dysgwyr hefyd at yr eirfa a restrir yn y cwestiwn, a'u hannog i ddefnyddio cynifer o'r geiriau hynny ag sy'n bosibl.

- Cyn i'r dysgwyr lunio eu llythyrau, mae'n hollbwysig eu bod yn ymwybodol bod angen cynllunio'r gwaith yn ofalus. Gellid ymarfer hyn yn y dosbarth, e.e. drwy ofyn i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach i lunio paragraff agoriadol / llunio cynllun ar gyfer corff y llythyr / llunio paragraff clo.
- Ar ôl gosod a marcio pob tasg Trawsieithu, mae'n hollbwysig neilltuo amser i roi adborth i'r dosbarth, gan roi sylw i'r canlynol, er enghraifft:
 - egluro unrhyw wallau cyffredin ac ymarfer y pwyntiau gramadegol perthnasol yn drwyadl
 - annog dysgwyr i ddadansoddi'r cryfderau yng ngwaith ei gilydd a/neu mewn ateb(ion) enghreifftiol a baratowyd gennych.

Isod, ceir enghreifftiau o rai patrymau, ymadroddion a geiriau y gellid eu cyflwyno a'u drilio. Pwysleisir mai enghreifftiau'n unig ydynt ac nad oes rhaid cadw at y rhain yn benodol.

Cyfeirio at yr erthygl

Yn ôl yr erthygl ...
 Roeddwn i'n synnu darllen ...
 Mae'r erthygl yn cyfeirio at ... / Cyfeiria'r erthygl at ...
 Mae'r erthygl yn dyfynnu ... / Dyfynna'r erthygl ...
 Mae'r erthygl yn esbonio bod ... / Esbonia'r erthygl fod ...
 Rydyn ni'n darllen bod ... / Darllenwn fod ...
 Mae'r erthygl yn ychwanegu ... / Ychwanega'r erthygl ...
 Mae'n ddiddorol darllen ...

Mynegi barn

Dw i o'r farn fod ...
 Credaf fod ...
 Teimla i'n gryf fod ...
 Mae rhaid dweud bod ...
 Yn ddi-os, mae ...
 Dw i wrth fy modd yn ...
 Dw i'n gefnogol i ...
 Does dim yn waeth na ...
 Heb ronyn o amheuaeth ...
 Yn y pen draw ...
 Wedi'r cwbl ...

Cytuno

Dw i'n cytuno'n frwd bod ...
Dw i'n cytuno i ryw raddau ...
Dw i'n cytuno'n llwyr ...
Dw i'n cydsynio â hyn.
Cytuna i fod ...
Cytuna i gant y cant.
Galla i ddeall y pwynt ...
Mae'r pwynt hwn yn taro'r hoelen ar ei phen.
Yn ddigwestiwn, mae hwn yn bwynt dilys.

Anghytuno

Dw i'n anghydweld.
Dw i'n anghydsynio.
Ffolineb yw credu hyn.
Am ffolineb!
Am ddadl wan!
Mae'n ddisynnwyr.
Mae'n anodd credu'r pwynt hwn.
Dydy'r ddadl ddim yn dal dŵr.

Dwy ochr y ddadl

Mae dwy ochr i bob dadl.
Mae dwy ochr i'r geiniog.
Mae manteision ac anfanteision.
Ar un llaw ... ond ar y llaw arall ...
Galla i weld y pwynt, ond mae'n rhaid cofio bod ...
Serch hynny ...
Fodd bynnag ...

Profiad personol

Yn bersonol ...
Yn fy mhrofiad i ...
Dw i'n cofio pan ...
Clywais ar y newyddion am ...

Defnyddio iaith, a'r Stori Fer

Adran A: Defnyddio iaith

DEFNYDDIO'R ATODIAD IAITH

Dylid sicrhau:

- defnydd cyson o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng yn y gwersi
- ffocws ieithyddol ym mhob gwrs (gan gynnwys adnabod elfennau ieithyddol sy'n deillio o'r agweddau rhyddiaith/barddoniaeth)
- dulliau hwyliog a diddorol o gyflwyno iaith (gemau, *gweithgareddau a **gwefannau)
- cyflwyno'r iaith mewn cyd-destunau dilys
- cefnogaeth staff sy'n siaradwyr Cymraeg
- cywiro sensitif gan osgoi gorgywiro drwy amlygu elfennau ieithyddol fel rhan o'r meini prawf llwyddiant
- cyfleoedd sy'n galluogi dysgwyr i'w trwytho eu hunain mewn agwedd ieithyddol cyn mynd ati i gyflwyno'r hyn a ddysgwyd i bartner neu grŵp

*Awgrymir gwneud defnydd o gyhoeddiadau megis:

Seren iaith (Nona Breese a Bethan Clement)

Seren iaith 2 (Nona Breese a Bethan Clement)

Golwg ar iaith (Non ap Emllyn)

Cymraeg Graenus (Phyl Brake)

**Gwefannau megis Canolfan Peniarth

CANLLAWIAU GENERIG ar gyfer ADRAN A(i) (ac ADRAN B(i))

Gall Adran A(i) a/neu Adran B(i) ofyn am ysgrifennu ac/neu ymateb i'r canlynol:

- e-bost
- blog
- llythyr
- ymson
- erthygl
- proffil
- sgwrs
- dyddiadur
- gwahoddiad
- poster
- pwnc llosg

Argymhellir y camau canlynol:

1. Rhagbaratoi

Trafod nodweddion y genre dan sylw

- (Ar lefel syml ac fel man cychwyn mae modd defnyddio *Serennu wrth Sgrifennu* (Canolfan Peniarth) ac yna symud ymlaen at *Ffuglen a Ffaith* (CAA) cyn creu meini prawf llwyddiant yn seiliedig ar y trafod uchod)
- Darllen ambell enghraifft o'r genre dan sylw a thrafod y rhinweddau yn erbyn y meini prawf llwyddiant
- Adnabod anghenion ieithyddol
- Ymarfer y defnydd hwn o'r iaith

2. Trafod yr iaith / Defnyddio technegau wrth ysgrifennu

| (a) Ysgrifennu portread | |
|--|---|
| <p>laith</p> <ul style="list-style-type: none"> • yr amhersonol • 3ydd person y ferf • is-gymalau • ansoddeiriau estynedig • Mae'r awdur yn awgrymu ... • Mae'n ymddangos bod ... oherwydd ... • Gellir honni ... • Mae ... yn mynnu ... • Mae hyn yn dangos/profi bod ... • Mae tystiolaeth ... | <p>Technegau, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifio ymddangosiad allanol • sôn am ei gefndir/ei chefnidir • cyfraniad y cymeriad i'r stori • personoliaeth • diddordebau • cymeriad • ei ymateb / ei hymateb i eraill • ymateb cymeriadau eraill iddo/iddi • defnyddio digwyddiadau a gweithredoedd i gefnogi barn |

| (b) Ysgrifennu dyddiadur | |
|---|--|
| <p>laith</p> <ul style="list-style-type: none"> • person cyntaf • iaith anffurfiol • *priod-ddulliau • berfenwau (yn lle berfau llawn) • ebychiadau <p>*Argymhellir gwneud defnydd o'r gyfrol <i>Cryno-ddysg y Cymry</i> (Gwasg Prifysgol Cymru)</p> | <p>Technegau, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • creu awyrgylch • defnyddio hiwmor • amrywio hyd brawddegau • defnyddio 'elipses' • cynnwys cwestiynau rhethregol • cynnig atebion • mynegi teimlad • mynegi barn • cyfleu siom/amheuon/gobaith/cyfrinachau • ymateb i ddigwyddiadau/amgylchiadau pobl eraill |

| (c) Ysgrifennu adroddiad papur newydd | |
|---|---|
| <p>laith</p> <ul style="list-style-type: none"> • trydydd person y ferf • amser presennol/arferiadol • ebychiadau addas • priod-ddulliau addas • ansoddeiriau i ddisgrifio teimladau/awyrgylch | <p>Technegau, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • ysgrifennu yn y presennol • creu brawddegau hir a byr • gofyn cwestiynau rhethregol • creu teimladau/awyrgylch/tensiwn • defnyddio ebychiadau/priod-ddulliau • ailadrodd i bwysleisio pwynt |

3. Ymateb i genre (e.e. blog, e-bost, llythyr)

Mae'n hanfodol cynnwys meini prawf llwyddiant gyda thasg o'r fath, e.e. Wrth i chi ymateb i ... dylech...

Bydd hyn yn hyfforddi'r dysgwyr i ddarllen y darn dan sylw'n fanwl a chwilio am:

- sylwadau pwysig yn y testun
- cwestiynau sydd angen ymateb iddynt, e.e. Allwch chi ...?, Ydych chi ...? Sut ...?
- cwestiynau rhethregol
- brawddegau sy'n dweud 'Rwy'n gobeithio eich bod yn cytuno ...'
- brawddegau megis 'Tybed oes gennych chi syniadau ...'

4. Cwestiwn A(i) Gwrthod gwahoddiad

Meini prawf llwyddiant

- dilyn confensiwn y genre
- cynnwys cwestiwn sy'n holi am fywyd yn gyffredinol
- diolch am y gwahoddiad
- gwrthod y gwahoddiad gan gynnig rheswm
- mynegi siom
- cynnig cwrdd rywbyrd eto gyda manylion posibl
- dymuno amser da a llwyddiant i'r achlysur
- mynegi diddordeb mewn derbyn newyddion am yr achlysur gan gynnwys lluniau efallai

5. Cwestiwn A(i) Sgwrs ffôn yn gwahodd person i achlysur a hysbysir ar boster/tocyn

Meini prawf llwyddiant

- trafod confensiwn sgwrs
- adnabod iaith sy'n gwahodd
- creu sefyllfa lle mae angen perswadio
- adnabod iaith sy'n angenrheidiol i ddwyn perswâd
- defnyddio manylion yr achlysur i lunio cwestiynau/ymateb priodol
- cyfiawnhau pwysigrwydd yr achlysur (e.e. codi arian at achos da, dathliad, taith i'r theatr gyda'r grŵp Safon Uwch)

6. Cwestiwn A(i) Ymateb i bwnc llosg

Meini prawf llwyddiant

- darllen y darn yn ofalus
- aroleuo prif bwyntiau'r darn
- adnabod patrymau iaith addas i'r dasg

(a) Iaith cytuno ac anghytuno

Rydw i'n cytuno'n llwyr

Rydw i'n anghytuno

Fedra i ddim cytuno â ...

Rydw i'n meddwl bod ... / dylai ... / bod rhaid i ...

Rydw i'n credu'n gryf bod ... / dylai ... / bod rhaid i ...

(b) Iaith ymateb i sylwadau pobl eraill

Yn ôl ... mae / roedd / bydd

Mae ... yn cydnabod bod ...

Mae ... yn honni / awgrymu / dweud bod ...

Mae ... yn cyfeirio at ...

(c) Iaith cynnig syniadau

Mae angen ...

Rydyn ni angen

Mae rhaid i ...

Dylai ...

Byddai'n well petai ...

Hoffwn i weld ...

Byddwn i wrth fy modd petai ...

(ch) Iaith ymateb personol

Rydw i'n ffodus achos ...

Does gen i ddim profiad personol ond ...

Mae gen i brofiad personol o hyn ac felly ...

(a) Ymateb i e-bost

| | | |
|------|----------|----------------------------|
| Send | To... | Aelodau'r Clwb Ieuenctid |
| | Cc... | |
| | Subject: | Adnewyddu neuadd y pentref |

Mae'n siŵr eich bod wedi clywed y bydd neuadd y pentref yn cael ei hadnewyddu dros gyfnod y gaeaf. Oherwydd hynny fydd hi ddim yn bosibl cynnal y Clwb Ieuenctid yno o fis Hydref ymlaen. Rydyn ni'n gobeithio cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Chwefror – yn barod ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Yn y cyfamser rydyn ni wedi cael caniatâd i ddefnyddio neuadd yr ysgol. Ffodus iawn, ynte? Fodd bynnag, bydd rhaid newid y clwb o nos Fawrth i nos lau ond bydd yr amser yn aros yr un fath. Gobeithio bydd hyn yn gyfleus i bawb. Hoffwn dderbyn eich sylwadau.

Felly, cofiwch gyfarfod cyntaf y flwyddyn – nos lau, 6 Hydref am 7 o'r gloch yn neuadd yr ysgol. Tybed ydych chi wedi cael cyfle i feddwl am weithgareddau cyffrous a diddorol ar gyfer y flwyddyn – yn arbennig dathlu'r Nadolig a Gŵyl Dewi a hefyd taith flynyddol y clwb?

Gan edrych ymlaen at eich gweld ar 6 Hydref ac yn y cyfamser at eich ymateb i gynnwys yr e-bost.

Jill

Meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg:

- diolch am yr e-bost
- ymateb i'r ffaith
 - (i) y bydd neuadd y pentref yn cael ei hadnewyddu
 - (ii) y bydd yn barod ar gyfer Mawrth 1af
- barn am y cyfle i wneud defnydd o neuadd yr ysgol
- ymateb i'r newid noson
- dweud a ydych yn gallu bod yn y cyfarfod cyntaf – gan wneud sylw
- cynnig syniadau ar gyfer dathlu'r Nadolig gan gynnwys rhai manylion
- cloi'r e-bost yn briodol

(b) Gwrthod gwahoddiad i'r digwyddiad isod

Mae'r rhifau mewn cromfachau yn y cylchlythyr yn cyfateb i'r brawddegau sydd wedi eu rhifo yn yr ymateb posibl.

CYLCHLYTHYR Y CYN-DDISGYBLION

Aduniad

Gobeithio bod pawb yn iawn.

Diolch i bawb ddaeth i'r aduniad llynedd. (1) Roedd hi'n noson hyfryd a chafwyd noson fythgofiadwy, rwy'n siŵr y cytunwch.

Mae'r amser wedi dod i ni drefnu aduniad eto eleni. (4) Bydd y noson yn y Clwb Rygbi ar 18 Mehefin am wyth o'r gloch. (2) Y tro hwn, yn lle disgo rydyn ni wedi penderfynu cynnal barbeciw.

(3) Tua £7 y pen fydd y gost a hyn yn cynnwys disgo yn yr awyr agored os bydd hi'n braf.

(5) Rhowch wybod os ydych chi'n gallu dod ai peidio er mwyn i ni drefnu'r bwyd. Gallwch chi anfon nodyn, ffonio neu anfon e-bost at un o'r pwyllgor.

Gobeithio'n fawr y gallwch chi ddod. (6) Os na, efallai gallwn ni gwrdd rywbryd cyn y Nadolig.

Marged a'r criw

Ymateb posibl

| | | |
|------|----------|---------|
| Send | To... | Marged |
| | Cc... | |
| | Subject: | Aduniad |

Marged a'r criw

Diolch am anfon y cylchlythyr diweddaraf.

(1) Rwy'ti'n hollol iawn – roedd yr aduniad llynedd yn ardderchog a chafodd pawb hwyl, yn sicr. Bythgofiadwy, fel dwest ti.

Mae'n wych eich bod am drefnu aduniad eto eleni. (2) Mae'r syniad o gael barbeciw yn hytrach na disgo'n apelio'n fawr – cyfle gwych i gymdeithasu.

(3) Mae'r pris yn rhesymol iawn hefyd. (4) Mis Mehefin – amser delfrydol i gynnal digwyddiad yn yr awyr agored. Siawns bydd hi'n braf!

(5) Yn anffodus, dydw i ddim yn gallu dod eleni. Mae'r teulu wedi cael gwahoddiad i briodas yn Efrog Newydd. Bydd yn gyfle i gael gwyliau teulu a mwynhau'r briodas yr un pryd. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr. Gobeithio bydd nifer o'r cyn-ddisgyblion eraill yn gallu dod er mwyn i'r noson fod mor llwyddiannus â llynedd.

Hoffwn glywed hanes y noson ac os oes lluniau, anfona nhw hefyd.

(6) Beth am drío trefnu noson cyn y Nadolig yn y tŷ bwyta newydd yn y pentref? Yn ôl y papur bro mis diwetha mae'r lle'n boblogaidd iawn a'r bwyd yn arbennig o dda. Mwynha'r aduniad.

Cofia fi at y criw.

Harri

(c) Ysgrifennu paragraff yn seiliedig ar ffeil-o-ffaith

| | |
|-----------------------|---|
| FFRAINC |  |
| Prifddinas: | Paris |
| Poblogaeth: | 65 miliwn |
| Iaith: | Ffrangeg |
| Arian: | Euro |
| Baner: | Tricolore |
| Diwrnod cenedlaethol: | 14 Gorffennaf – Diwrnod Bastille |
| Hoff fwyd: | Caws (gyda gwydraid bach o win) |
| Pobl enwog: | Thierry Henry (pêl-droediwr) Claude Monet (arlunydd) |
| Adeiladau enwog: | Tŵr Eiffel (1889); Notre Dame (1163) |

Mae'n bwysig hyfforddi dysgwyr i amrywio'r patrymau iaith a ddefnyddir gan gynnwys priod-ddulliau os yw hyn yn briodol. Disgwylir ymateb tebyg i'r canlynol:

Ffrainc

Mae 65 miliwn o bobl **yn byw** yn Ffrainc a **Paris yw** (ydy) prifddinas y wlad. Iaith swyddogol Ffrainc yw (ydy) Ffrangeg a'r euro yw'r arian **erbyn hyn**.

Mae baner y wlad **yn las, gwyn a choch** ac enw'r faner yw'r tricolore **yn Ffrangeg. Ar 14 Gorffennaf** mae'r Ffrancwyr yn dathlu eu diwrnod cenedlaethol, **sef** diwrnod coffáu ymosod ar y Bastille.

Mae pawb yn gwybod mai hoff fwyd y Ffrancwyr yw caws ac **fel arfer** maen nhw'n yfed gwydraid o win gyda'r caws hefyd.

Mae llawer o bobl enwog yn dod o Ffrainc. **Mae pobl sy'n hoffi pêl-droed yn adnabod** Thierry Henry ac **mae pawb wedi clywed** am Claude Monet a'i ddarluniau hyfryd.

Mae twristiaid yn mynd i weld yr adeiladau enwog yn y brifddinas. **Mae pobl yn hoffi** dringo Tŵr Eiffel i weld y golygfeydd. **Adeiladwyd** y tŵr yn 1889. **Hefyd** mae eglwys Notre Dame a adeiladwyd yn 1163 yn anhygoel.

ADRAN A (ii)

Mae gofynion y tasgau hyn yn amlwg, er enghraifft:

- crynhoi neges
- newid amser y ferf
- dewis y ferf gywir mewn brawddeg
- tasgau golygu

Fe geir enghreifftiau mewn cyfrolau megis *Seren Iaith*, *Seren Iaith 2* ynghyd â'r atebion. Gall hyn hybu dysgwyr i ymarfer a chywiro eu gwaith eu hunain / gwaith ei gilydd.


Adran B: Y stori fer

Sicrhau gwybodaeth fanwl gywir o'r pedair stori fer.

Gellid defnyddio templed megis yr un isod ar gyfer pob stori fer. Gall hyn fod yn waith unigol, pâr, grŵp neu ddsbarth cyfan.

| | |
|--|--|
| Enw'r stori fer | |
| Enw'r awdur | |
| Y cymeriadau | |
| Pa gymeriad sy'n apelio / ddim yn apelio atoch a pham? | |
| Crynodeb o'r stori | |
| Iaith anghyfarwydd | |
| Nodweddion ieithyddol | |
| Y themâu | |
| Agweddau synoptig y themâu | |
| Barn am y stori | |
| Technegau a ddefnyddir | |
| Pwrpas/effaith y technegau hyn | |

Astudiaeth o gymeriad sy'n apelio / ddim yn apelio atoch.



Geirfa 'Beth os?' (Llio Mai Hughes)

(a) Geiriau ac ymadroddion Seisnig

Byddai'n syniad peidio â chynnwys rhif y dudalen yn y categori yma gan roi cyfle i'r darllenwyr ddarganfod y gair neu'r ymadrodd a/neu dyfalu'r ystyr. Mae'n bosibl y daw'r ymgeiswyr o hyd i enghreifftiau pellach. (Dylai gweld cynifer o eiriau ac ymadroddion Seisnig roi hyder i'r ymgeiswyr wrth iddynt fynd ati i ddeall y stori.)

| Colofn A Tudalennau 43-9 | Colofn B Tudalennau 50-56 |
|-----------------------------|------------------------------|
| siwrnai | carafán |
| smotyn | sioc |
| rownd a rownd | ffôn |
| c'mon | risg |
| côl tar | prentisiaeth |
| fflachio | sw |
| e-bost | siŵr |
| typical | lyfli |
| (d)diseremoni | sengl |
| ffotograffydd | stoc |
| stwoff | insiwrans |
| c(g)ornel | fflyrtio |
| sdicio | pyrfi |
| powld | hync |
| tecst | rhamantydd |
| fflat | secsi |
| desg | bêb |
| teipio | boi |
| syrpréis | ei blesio fo |
| bwndel | helô |
| cleientiaid | ffarwelio |
| wastio | sgrîn |
| jest | tectio |
| rwdlan | bwcio |
| mater(ion) | dympio |
| delio | ffit |
| amhleserus | desg |
| bòs | job/jobsys |
| tasgau | stwoffia |
| yn sydyn | cês |
| meindio | bicinis |
| setlo | sandalau |
| soffa | trên |
| doctoriaid | giât |
| cleient | stiward |
| | ordro |

(b) Detholiad o eiriau ac ymadroddion anghyfarwydd a thafodieithol

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr | |
|-----|-------------------------|----------------------------------|----------------------|
| 43 | diawledig | diabolical (lit. devilish) | |
| | yn ddiwyd | diligent | |
| | troelli | to twirl / to spin | |
| 44 | deuddydd | two days | |
| | tridiau | three days | |
| | busneslyd | interfering | |
| | sud (sut) | how | |
| | dylunio | to design | |
| 45 | llnau (glanhau) | to clean | |
| | calad (caled) | hard | |
| 45 | nath o gynnig | he offered | |
| | ddudes i | I said | |
| | goro' | must / have to | |
| | licith o | he likes | |
| | yli | look | |
| | neisiach o lawar | far nicer | |
| | fama | here | |
| | cymodi | reconcile/atone | |
| | 46 | dod o hyd i | to find |
| | | bod mor hy | to be so bold/cheeky |
| 47 | gwirio | to check | |
| | dychwel, dychwelodd | to return, he/she/it returned | |
| | ynde? | isn't it? | |
| 48 | wastad | always | |
| | hel ...i gefn ei meddwl | to put something out of her mind | |
| | mewnbynnu | to input (on a computer) | |
| | ystadegau | statistics | |
| | (g)orfod | having to | |
| | mwydro | to moider | |
| 49 | ias | shiver | |
| | sothach | rubbish (in terms of quality) | |
| 50 | y cae sgwâr | gwely (lit. square field) | |
| | antur/iaethau | adventure/s | |
| | y diawl lwcus | the lucky devil | |
| | eiddgeddus | jealous | |
| | brwd / rhy frwd | eager / too eager | |
| | claddu | to bury | |
| | y basa chdi | that you would | |

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr |
|-----|----------------------|-----------------------------------|
| | mi o'n i | I was / used to |
| | milfeddyg | vet |
| 51 | bo' 'na fwy na digon | that there are more than enough |
| | ella bod gen ti | perhaps you've got |
| | oedd o newydd ...? | had he just ...? |
| | hen ddyn budr | dirty old man |
| | clamp o fol cwrw | a huge beer belly |
| | cogio bod | pretending to be |
| | ugeiniau | twenties |
| | yn ysu | itching |
| 52 | ffawd | fate |
| | cyd-ddigwyddiad | coincidence |
| | y ffasiwn beth | such a thing |
| | doedd hi'm yn ... | she wasn't ... |
| | malio | to care |
| | yn does? | isn't there? |
| | pincio/ymbincio | to put make-up on |
| 53 | llun dychmygol | imaginary picture |
| | sadio'i hun | to steady herself |
| | glafoerio | to drool |
| | euraid | golden |
| | toddi | to melt |
| | yngan gair | to utter a word |
| | lletchwith | awkward |
| | clamp o wên | a huge smile |
| | trigain | sixty |
| | gwawrio ar | to dawn on |
| 54 | hunandosturi | self-pity |
| | yn llawn cynnwrf | excited |
| | ty'd | come |
| 55 | pilipalod | butterflies |
| | sgin ti | have you got |
| | gan bo gen ti | since you have |
| | yn sarrug | surly |
| | yn gegrwth | open-mouthed |
| 56 | anniddig | irritable / feeling uncomfortable |
| | anelu am | to aim for |
| | ar fin ffrwydro | about to explode |
| | er mwyn sicrhau | in order to ensure |
| | gwahanol i'r arfer | out of the ordinary |

(c) Priod-ddulliau

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr |
|-----|------------------------------|---|
| 43 | bellach | by now/by this time/anymore |
| | ar ei hôl hi | behind (in time)/late |
| | chwedl (ei hen athrawes) | as (her old teacher) would say |
| | yn ara' deg | slowly |
| | o dan ei gwynt | under her breath |
| | yn gynt na'r arfer | earlier than usual |
| | fesul un | one by one |
| | dewis a dethol | to pick and choose |
| 44 | ar ei plât | on her plate |
| | ar gael | available |
| | roedd gofyn | it was necessary / there was a need to |
| 45 | ac ati | and so on |
| | wedi hen arfer | well used to ... (doing something) |
| | bod yn gefn | to be supportive |
| 46 | cael gwared o | to get rid of |
| | cwbl wahanol | totally different |
| | i feddwl | to think (that ...) |
| | ers rhyw | since about |
| | prin yn ... | scarcely |
| | malu awyr | waffle / indulge in pointless talk |
| 47 | pob arlliw o | every sign of |
| | wedi'r cyfan | after all |
| 48 | rhyw fath | some sort (of ...) |
| | ar fin | about to (do something) |
| | heb sôn am | not to mention |
| | o leiaf | at least |
| 49 | mynd yn ei blaen | to go on to say |
| | methu'n lân â | totally unable to |
| | byd a'r betws | the whole world |
| | yn gyson | regularly |
| | serch hynny | despite that |
| 50 | cynnig cyfle | to offer an opportunity |
| 51 | codi calon | to hearten / to raise someone's spirits |
| | ac ati | and so on |
| | gadael i ... fod | to let something/someone be |
| 52 | roedd hi wastad yn | she/it was always |
| | ar gyfeiliorn | astray/lost |
| | rhoi'r drol o flaen y ceffyl | put the horse before the cart |
| | ei bol hi'n troi | her stomach was churning |
| 53 | gadael i bethau fod | let things be |

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr |
|-----|-----------------------------------|---------------------------------------|
| | mynd o chwith | to go wrong |
| | yn y fan a'r lle | on the spot |
| | fel rheol | as a rule |
| | ochenaid o ryddhâd | a sigh of relief |
| | gwenu fel giât | to grin widely |
| | ambell (i)... | the occasional ... |
| | o bryd i'w gilydd | from time to time |
| | ar ei phen ei hun | on her own |
| 54 | y tro cyntaf erioed | the first time ever |
| | mwy na thebyg | more than likely |
| | gan gwaith gwaeth | a hundred times worse |
| 55 | ar yr un llaw ... ar y llaw arall | on the one hand ... on the other hand |
| | wir Dduw | honest to God |
| | mae bron yn ... | it's almost |
| | meddwl am ffordd o'i chwmaps hi | think of a way around it |
| | troi ar ei sawdl | turn on his/her heel |
| 56 | 'di cael llond bol | had enough (lit. a belly full) |
| | rhoi'r gorau i ... | to give up |
| | mewn dim | in no time |
| | wyneb yn wyneb | face to face |
| | malio dim | couldn't care less |
| | wedi'r cwbl | after all |

Geirfa 'Trŵ Lyf' (Marlyn Samuel)

(a) Geiriau ac ymadroddion Seisnig

Byddai'n syniad peidio â chynnwys rhif y dudalen yn y categori yma gan roi cyfle i'r darllenwyr ddarganfod y gair neu'r ymadrodd a/neu dyfalu'r ystyr. Mae'n bosibl y daw'r ymgeiswyr o hyd i enghreifftiau pellach. (Dylai gweld cynifer o eiriau ac ymadroddion Seisnig roi hyder i'r ymgeiswyr wrth iddynt fynd ati i ddeall y stori.)

| Colofn A Tudalennau 83–93 | Colofn B Tudalennau 94–9 |
|------------------------------|-----------------------------|
| blincin gwaith cartref | embaras |
| roedd hi'n banic stations | trwbl |
| seidbord | no wê |
| a'i bloncio ar y bwrdd | eniwê |
| ffliciodd | wincio |
| sbectols | ffansio |
| licio | siâp |
| in lyf | ordro |
| cês | catalog |
| lysh | plîs |
| gorjys | fform ffeif |
| manejio | pasio |
| consart | criw |
| ôsym | paent |
| yn ffres | powdr |
| cantîn | nodio |
| wedi'i blastro | siwt |
| stwff | ffitio |
| bowld | mesmereiddio |
| cyrlan | toiledau |
| strymio | styrbans |
| snogio | perswadio |
| trîw | witsiad |
| swnio | brest |
| sêt | smŵj |
| cambyhafio | y foment |
| dwdlio | wats |
| cyrliog | trŵ lyf |
| winc | sopi |
| matar | dreifio |
| copio fo | nac |
| iwsio | embarasing |
| symans | |
| yn breifat | |
| yn siort | |
| wadlo | |

(b) Detholiad o eiriau ac ymadroddion anghyfarwydd a thafodieithol

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr |
|--------------------|---------------------------|--------------------------------------|
| 83 | a ballu | and so on ... |
| | mechan i | my little one |
| 84 | yn fancw yli | over there, see |
| | tuchan | moan |
| | ca'l hyd i | to find |
| | cym bwyll | take your time |
| | wedi mopio | besotted |
| | un o ffor' yma ...? | someone from this area ...? |
| 85 | dwythfa | last |
| | ewadd | Lord! |
| | O, grasusa! | Oh, give me strength! |
| | glwad oglau | to smell (lit. to hear a smell) |
| | rwdlian | to talk rubbish |
| | 86 | Ylwch |
| llefryn | | youth |
| gwrthrych ei serch | | the object of (his/her) love |
| hidio | | to care |
| ei sgwario hi | | to strut |
| 87 | Be haru ti, dwa? | What's the matter with you, tell me? |
| | Wn i'm be | I don't know what |
| | yn wanllyd | weakly |
| | cudyn | a lock (of hair) |
| 88 | be ddudis i | What I said / did I say |
| 89 | difynadd | impatient |
| | camwedd | crime/offence |
| | wedi p wdu'n lân | sulking |
| 90 | t'i'n dallt? | do you understand? |
| | t'i'n clafychu? | are you sickening (for something)? |
| | anfawch | illness |
| 91 | dadebru/dadebrodd | to revive/to come around |
| | pwy nath? | who did it? |
| 92 | iaith fain | English |
| | mae gin hwnna wyneb | that one's got a cheek |
| | llorio | to floor (someone) |
| | sglyfaeth | horrible person (lit. prey) |
| | fysa | would |
| | ffor' hyn | in this area |
| | pishyn | good-looking |
| | gwaredu | to be shocked |
| 93 | y ffasiwn beth | such a thing |
| | atgyfnerthu/atgyfnerthwyd | reinforce / was reinforced |
| 94 | sbio'n hurt | to look stupidly /stunned |

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr |
|-----|----------------|------------------|
| | sgin i 'run | I don't have one |
| 95 | llesmair llwyr | total trance |
| | claerwyn | brilliant white |
| 96 | (h)arddyrnau | wrists |
| | rhyw fymryn | a little |
| | brychni | freckles |
| | ailgymodi | reconcile |
| 97 | cegrwth | in disbelief |
| | fysa fo byth | he never would |
| | siawns | chance |
| | O'n i di clwad | I'd heard |
| 98 | glafoerog | drooling |
| | clencian | clash |
| | fama | here |
| 99 | wedi pylu | faded |
| | fferu | starving |

(c) Priod-ddulliau

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr |
|-----|------------------------|--------------------------------|
| 84 | cael hyd iddo | to find |
| 85 | dwyn i go' | to bring to mind |
| 86 | a dweud y gwir | to be honest |
| | serch hynny | despite that |
| 87 | rhoi'r gorau i ... | to give up |
| | yn feunyddiol | daily |
| 88 | ers bore oes | from an early age |
| | fwy neu lai | more or less |
| | cyrraedd pen ei dennyn | to reach the end of his tether |
| | ers meityn | for some time |
| | Pam yn y byd mawr? | Why in the world? |
| | wedi cael llond bol | had enough |
| 89 | wedi canu arni | it's at an end |
| | rhyw gwta ddeng munud | almost ten minutes |
| | cadw llygad barcud | to be vigilant |
| 90 | trwch blewyn | a whisker / a hair's breadth |
| | law yn llaw | hand in hand |
| | troi a throi | toss and turn |
| | wedi'r cwbl | after all |
| 91 | o'i cho | to go mad |
| | dan ei wynt | under his breath |
| 92 | cadw ar | to keep someone's part |

| tud | Gair/ymadrodd | Ystyr |
|-----|----------------------------|-------------------------------|
| | arbed ei groen | to save someone's skin |
| 93 | mymryn bach | a little bit |
| | troi ar ei sawdl | to turn on his / her heel |
| 94 | y llygedyn lleiaf o obaith | the slightest glimmer of hope |
| | cael a chael | touch and go |
| | fwy neu lai | more or less |
| | siw na miw | a word or a sound |
| 96 | rhyw fymryn | slightest amount |
| 97 | ond y dim | almost |
| 98 | o gil ei llygad | from the corner of her eye |
| | yn y fan a'r lle | on the spot |